PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

DYDD LLUN, 14 IONAWR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Jones-Pritchard(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Goddard, Kelloway, Lister, McKerlich, Naughton, Keith Parry, Sandrey a/ac Wong |

16 : YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Burke-Davies a Goodway.

17 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim datganiadau buddiannau yn y cyfarfod hwn.

18 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2018 yn gofnod cywir, ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

19 : STRATEGAETH DYSGU A DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG

Derbyniodd y Pwyllgor y Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig Drafft 2019-22 a baratowyd gan Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, Uwch Reolwyr a'r Chwipiaid Grŵp a'r Aelod Annibynnol yn ystod Hydref 2018. Yn dilyn adolygiad pellach gan Gadeirydd Gwasanaethau Democrataidd a’r Chwipiaid Grŵp, paratowyd fersiwn ddrafft terfynol i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor hwn cyn ei chymeradwyo a'i mabwysiadu gan y Cyngor Llawn ar 28 Mawrth 2019.

Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor sylw at bwysigrwydd galluogi Aelodau Etholedig i wella’u sgiliau a'u gwybodaeth yn yr un modd â chyflogeion y Cyngor, a phwysigrwydd darparu'r offer angenrheidiol i Aelodau i'w cefnogi drwy eu cyfnod mewn swydd. Roedd y Cadeirydd hefyd yn croesawu'r newid pwyslais yn y Strategaeth, yn arbennig gwella'r gefnogaeth ar gyfer lles Aelodau Etholedig, a oedd yn bodloni un o ganlyniadau'r Arolwg Aelodau.

Cefnogodd yr Aelodau'r Strategaeth arfaethedig a'r dull a gynigid i Aelodau Etholedig ar gyfer dysgu a datblygu. Argymhellwyd y dylid cynnig sesiynau pwrpasol i Aelodau Etholedig ar gyflwyno mewn Pwyllgorau Rheoleiddio, er enghraifft, gwell dealltwriaeth o broses ymweld â safleoedd y Pwyllgor Cynllunio a'r cyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio.

PENDERFYNWYD – bod y Strategaeth Dysgu a Datblygu Aelodau Etholedig Drafft yn cael ei chymeradwyo i'w chyflwyno i'r Cyngor ar 28 Mawrth 2019 i'w chymeradwyo a'i mabwysiadu.

20 : DISGRIFIADAU ROLAU’R AELODAU ETHOLEDIG

Derbyniodd y Pwyllgor, i'w cymeradwyo, haen gyntaf o ddisgrifiadau rôl Cyngor Caerdydd ar gyfer

- Aelodau Etholedig
- Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgorau Craffu.

Adroddodd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y fethodoleg a'r broses a ddefnyddiwyd i adolygu disgrifiadau rôl cyffredinol CLlLC a fabwysiadwyd yn flaenorol gan y Cyngor a'r gwaith a ymgymerwyd i'w gosod o fewn cyd-destun Cyngor Caerdydd gan gyfeirio at ofynion Ymgymeriad Caerdydd a'i nodweddion personol.

Roedd Gweithgor Trawsbleidiol a oedd yn cynnwys Aelodau o'r Pwyllgor, yr Aelod Annibynnol a Chwipiaid Grwpiau plaid wedi cyfarfod ar 10 Rhagfyr fel rhan o'r broses ddrafftio. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau Craffu ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu ac yr oedd y dogfennau wedi'u diweddaru'n briodol

Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar yr haen nesaf o Ddisgrifiadau Rôl mewn cydweithrediad â'r Pwyllgorau a'r swyddogion perthnasol ac roedd y rhain yn cynnwys:-

- Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio
- Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau a Moeseg
- Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Rhianta Corfforaethol.

Manylir ar fanylion y Disgrifiadau Rôl eraill y bwriedir eu hadolygu yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

| | |
|---|---|
| (1) | i gytuno ar y Disgrifiadau Rôl canlynol<br>• Aelodau Etholedig<br>• Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd<br>• Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu. |
| (2) | bod y disgrifiadau rôl y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w mabwysiadu a'u cymeradwyo; |
| (3) | i nodi'r cynnydd o ran adolygu'r holl Ddisgrifiadau Rôl; a |
| (4) | bod diweddariad ar hynt yr adolygiad o'r Disgrifiadau Rôl eraill yn cael ei raglennu ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor. |

## 21 : ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2018

Cafodd y Pwyllgor fanylion amlinell cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2018. Cyn hyn cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor ym mis Mehefin bob blwyddyn ac roedd yn ymdrin â'r Flwyddyn Ddinesig. Roedd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cynnig, er mwyn i'r Cyngor Llawn ystyried yn effeithiol y gwasanaethau a'r cymorth a ddarperir i Aelodau Etholedig, y dylai'r

adroddiad blynyddol gydblethu â'r broses o bennu'r gyllideb.  Felly, argymhellwyd bod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor hwn yn y dyfodol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Ionawr bob blwyddyn.

Cytunodd y Pwyllgor ar y penawdau a'r fformat arfaethedig ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol, ond roedd yn pryderu ynghylch yr amserlen ar gyfer paratoi'r adroddiad ar gyfer cyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr ac awgrymwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 28 Mawrth 2020 y tro hwn.   Byddai hyn yn rhoi amser i'r Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor adolygu'r adroddiad drafft a rhoi sylwadau arno. Roedd y Pwyllgor yn cytuno bod yr Adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi ar gyfer y Cyngor ym mis Ionawr o 2020.

PENDERFYNWYD - y canlynol

| | |
|---|---|
| (1) | Cytunwyd ar gynnwys arfaethedig Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor; |
| (2) | Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor i ddrafftio a chwblhau'r Adroddiad Blynyddol gan ystyried y sylwadau a gafwyd gan y Pwyllgor; |
| (3) | Unwaith y bydd y Cadeirydd wedi cytuno ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor, dylid ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 28 Mawrth 2020; |
| (4) | yn y dyfodol, bydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr fel y gall fwydo i mewn i'r broses o bennu'r gyllideb. |

## 22 : ADRODDIAD PERFFORMIAD GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar berfformiad Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor, yn enwedig data ar fonitro Ymholiadau Aelodau, Gwe-ddarlledu ac ymweliadau Facebook Live ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor, Cynllunio a Chraffu a ddarlledwyd.  Yn ogystal, cafodd y Pwyllgor adborth gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar sawl rhwydwaith sy'n ymwneud â gwasanaethau democrataidd a chraffu.

Nododd yr Aelodau'r sesiynau Dysgu a Datblygu arfaethedig a gofynnwyd am gael o leiaf 4 - 6 wythnos o rybudd o sesiwn Hanfodol yn ogystal â'r cynnig o e-ddysgu. Dysgu fel dewis amgen i fynychu sesiwn.

Trafodwyd pwysigrwydd cymorth, gan gynnwys cymorth gan gymheiriaid, mentora, sesiynau ymwybyddiaeth o gadernid a lles, a nodwyd bod yr Aelodau wedi cael llyfr gwaith yn ddiweddar ar Wydnwch Personol a Rheoli Straen.  Roeddent yn mynd i'r afael â mentrau pellach mewn perthynas â lles a chymorth i Gynghorwyr gan gynnwys Diogelwch Personol ac Ymwybyddiaeth Ddiogelwch.

Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o rannu gwybodaeth ag Aelodau er mwyn iddynt gael y wybodaeth ddiweddaraf a pherthnasol, gyda'r enghraifft o'r diffyg gwybodaeth am baratoadau ar gyfer Brexit yn cael ei chyflwyno.

PENDERFYNWYD - bod yr adroddiad yn cael ei nodi a bod sylwadau Aelodau'r Pwyllgor yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses o ddarparu gwasanaethau i Aelodau yn y dyfodol.

## 23 : Y FLAENRAGLEN WAITH

Cafodd y Pwyllgor y rhaglen waith arfaethedig a fyddai'n cael ei diweddaru yn dilyn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD - bod y cynllun gwaith arfaethedig yn cael ei gymeradwyo.

## 24 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

## 25 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm